Cadw

## Mae'r adeilad hon yn rhestredig o dan y Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990

### Adeilad Rhestredig: Adroddiad am Adeilad

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Awdurdod :** | Sir Benfro | **Rhif Cyfeirnod :** | 87800 |
| | | **Dyddiad Dynodi :** | 15 Mar 2021 |
| **Cymuned :** | Kilgetty/Begelly | **Dyddiad Diwygio :** | |
| **Ardal :** | Cilgeti | **Dyddiad Dadrestru :** | |
| | | **Cyfeirnod Grid :** | 212412,207209 |
| | | **Gradd :** | II |
| **Enw :** | Carreg filltir gyferbyn â'r Co-op yng Nghilgeti | | |
| **Rhif, Enw, Stryd :** | Ffordd Caerfyrddin | | |
| **Ochr o'r stryd :** | | | |

**Lleoliad :**

Wedi'i gosod i mewn i glawdd ar ochr ddeheuol Ffordd Caerfyrddin, gyferbyn â'r Co-op yng Nghilgeti.

**Hanes :**

Carreg filltir ar ffordd y goets bost o Sanclêr i Hobbs Point, a oedd yn wreiddiol yn cael ei rhedeg gan Ymddiriedolaeth Tafarn-sbeit. O ganlyniad i derfysg Merched Beca gorfodwyd Ymddiriedolaethau'r Tyrpeg i atgyfnerthu ymhob sir a ffurfio'r "County Roads Board". Mae'n debyg mai yn dilyn yr atgyfnerthu hwn y gosodwyd y garreg filltir hon (1836 - 40).

Mae'n bur debyg i'r platiau gael eu gwneud gan Moss &Sons, dyddiwyd 1838 yn rhywle arall.

**Tu allan :**

Carreg filltir, platiau haearn bwrw ar garreg neu goncrid o bosib yn disodli'r bloc gwreiddiol, y tu blaen ar oledd, gyda dau wyneb â phen trionglog. Ar y chwith: 11 / miles / to / Hobbs Point'. Ar y dde: 22 / miles / to / Carmarthen'.

Mae'r platiau wedi'u peintio'n wyn gyda llythrennau du wedi eu codi, ac wedi'u rhoi at ei gilydd ben wrth ben ar ongl o 90 gradd, trim du, wedi'i gosod ar gefn cadarn.

**Tu mewn :**

**Rhestredig :**

Wedi'i chynnwys ar gyfrif ei diddordeb o safbwynt hanes trafnidiaeth, fel rhan o system ffyrdd tyrpeg dechrau'r 19G.

### Cyfeiriadau

Ni chofnodwyd unrhyw un

**Darddiadau**
Ni chofnodwyd unrhyw un